



Manon Awst

CORSIO

Sink and stick in a bog

22 October – 22 November 2025

Location: Stiwdio Griffith, Dynevor Campus, Swansea College of Art, SA1 3EU

Opening times: 10am – 5pm, Monday – Saturday

Closing event: Friday 21 November, 5 – 7pm
with Manon Awst and Dylan Huw in conversation

Manon Awst's *CORSIO* is a culmination of four years' sculptural research on Welsh peatland.

The verb *corsio* is formed from the Welsh word for bog – *cors* – meaning *to sink and stick in a bog*. This is an apt title for an exhibition which proposes ways of *sinking* deep into the materiality of landscape and explores how sculptural works *stick* to ecologies over time. The word is also associated with 'becoming looser', which connects to the artist's playful collaboration with the sites and their materials.

The exhibition includes film, sculptural props, poems and samples that give form to rooted research and reflection on the alkaline fens of Anglesey and the quaking bogs of Eifionydd and Crymlyn, Swansea. Through performative investigations and material compositing, Awst embraces peat as a deep, situated ground with the potential to deconstruct boundaries between what is solid/fluid, wet/dry, dead/alive, stable/precarious, human/more-than-human.

A new sculptural composite will be created in situ at Stiwdio Griffith – an experiment in performative collaboration with materials collected from her chosen fens and bogs. The sculpture is rooted in peatland restoration and regenerative practice without losing the tactile and spatial curiosity which distinguishes the artist's work.

CORSIO offers space to explore the associative textures of peatland that may feel inaccessible or remote. Far from being natural and undisturbed, these are essentially *sculpted* environments, continuously moulded by human and more-than-human communities. To sink and stick in a bog means to be open to grounds that are wet, slow and unpredictable.

To find your local *cors*, visit: [Welsh Peatland Data Portal](#)

Manon Awst

CORSIO

Suddo a glynu mewn cors

22 Hydref – 22 Tachwedd 2025

Lleoliad: Stiwdio Griffith, Campws Dynevor, Coleg Celf Abertawe, SA1 3EU

Yn agored: 10am – 5pm, Llun – Sadwrn

Digwyddiad clo: Gwener 21 Tachwedd, 5 – 7pm
gyda sgwrs rhwng Manon Awst a Dylan Huw

Mae *CORSIO* gan Manon Awst yn benllanw pedair blynedd o ymchwil cerfluniol ar fawndir Cymru.

Berf go anghyfarwydd yw corsio sy'n disgrifio *suddo a glynu mewn cors*. Mae'n deitl addas ar gyfer arddangosfa sy'n cynnig ffyrdd o *suddo*'n ddwfn i ddeunydd tirwedd, ac yn archwilio sut mae gweithiau cerfluniol yn *glynu* yn ecolegol dros amser. Mae'r gair hefyd yn gysylltiedig â 'llacio', sy'n cysylltu â sut mae'r artist yn cydweithio'n chwareus â safleoedd a'u deunyddiau.

Mae'r arddangosfa'n cynnwys ffilm, propiau cerfluniol, cerddi a samplau sy'n rhoi ffurf i ymchwil greadigol a myfyrdodau wedi eu gwreiddio yn ffeniau alcalïaidd Ynys Môn a chorsydd crynedig Eifionydd a Chrymlyn, Abertawe. Trwy ymchwiliadau perfformiadol a deunyddiau cyfansawdd, mae hi'n cofleidio mawn fel sail dwfn sydd â photensial i bylu ffiniau rhwng yr hyn sy'n solet/hylif, gwlyb/sych, byw/marw, sefydlog/ansicr, dynol/mwy-na-dynol.

Bydd cyfansawdd cerfluniol newydd yn cael ei greu ar leoliad yn Stiwdio Griffith – arbrawf o gydweithio perfformiadol gyda deunyddiau a gasglwyd o ffeniau a chorsydd lleol. Mae'r deunyddiau hyn yn cysylltu â gwaith adfer mawndiroedd ac arferion adfywiol heb golli'r cyffyrddiad chwareus, gofodol sy'n nodweddu gwaith yr artist.

Mae *CORSIO* yn cynnig gofod i ddod i adnabod gwead cyfoethog mawndir, a allai deimlo'n anhygyrch neu'n anghysbell. Ymhell o fod yn naturiol a chyntefig, dyma dirweddau sydd wedi'u mowldio dros amser gan gymunedau dynol a mwy-na-dynol. Er mwyn suddo a glynu mewn cors mae gofyn bod yn agored i dir sydd yn wlyb, araf ac annisgwyl.

I ddod o hyd i'ch cors leol, ewch i: [Porth Data Mawndiroedd Cymru](#)